

Cynllun Blynyddol Wedi'i Gostio ar gyfer yr Ysgol

2016 - 2017

Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD)	£67,850.00
-------------------------------------------	-------------------

Enw'r ysgol	Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Pennaeth	John D Hayes

Grant Amddifadedd Disgyblion 2016-2017

Meysydd ffocws posib ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion

1. Mynd ati mewn ffordd gadarn i **adnabod angen** mewn perthynas â disgyblion difreintiedig, eu hamgylchiadau, cyflawniad a chynnydd ar hyn o bryd, ynghyd â gweithdrefnau clir ar gyfer **tracio cynnydd unigolion**
2. Datblygu dull systematig ar gyfer **ymyriadau, cymorth a rhoi adborth** i ddysgwyr unigol, gan gynnwys **y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu** ac y mae eu **presenoldeb** yn achosi pryder.
3. Trefnu darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr sy'n profi anfantais sylweddol a chanddynt **anghenion dysgu ychwanegol**, neu sy'n **blant sy'n derbyn gofal**, sy'n cael **addysg heblaw yn yr ysgol** neu sydd ag **anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol**.
4. Mynediad at **weithgareddau cyfoethogi, dileu unrhyw rwystrau ariannol** i gyfranogi a darparu gweithgareddau cwricwlaidd a chyfleoedd trwy **ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol** a rhaglenni yn y gwyliau.
5. Darparu **gwersi ychwanegol**, gwersi mewn grwpiau bychain a strategaethau eraill sydd wedi'u bwriadu i **bersonoleiddio dysgu** a thargedu cymorth a mynediad at gyfleusterau y tu hwnt i'r diwrnod ysgol sy'n ategu gwaith cartref a dysgu annibynnol, megis y rhai sy'n cynnwys TGCh.
6. Datblygu **cymorth a mentora personol** i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion, i ddileu rhwystrau i ddysgu a gwella lles a pharodrwydd i ddysgu.
7. Datblygu strategaethau sy'n cynnwys **y teulu a'r gymuned** gan gynnwys y rhai sy'n eu cyfeirio at gyfleoedd dysgu.
8. Gwreiddio cyfleoedd o fewn y cwricwlwm ac mewn dysgu ehangach i lais dysgwyr chwarae rhan lawn wrth oleuo penderfyniadau sy'n effeithio ar eu haddysg.
9. Cryfhau strategaethau sy'n hyrwyddo'r ysgol wrth galon ei chymuned.

Meysydd Allweddol i'w Gwella yn yr Ysgol	Sylfaen (set ddiwethaf o ganlyniadau)	Targedau – Deilliannau Disgwyliedig 2014-2015	Meini Prawf Llwyddiant
<p>1. Mynd ati mewn ffordd gadarn i adnabod angen mewn perthynas â disgyblion difreintiedig, eu hamgylchiadau, cyflawniad a chynnydd ar hyn o bryd, ynghyd â gweithdrefnau clir ar gyfer tracio cynnydd unigolion.</p> <p>Datblygu dull systematig ar gyfer ymyriadau, cymorth a rhoi adborth i ddysgwyr unigol, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu (GAD 1)</p>	<p>Dynodi Pennaeth Cynorthwyol yn Bencampwr Mentrau "Cau'r Bwlch" ar draws yr ysgol ac o fewn y Tîm Arwain.</p>	<p>System tracio yn ei le sy'n medru adnabod carfannau sydd mewn peryg o dangyflawni ac sydd mewn peryg o ymddieithrio o'r Ysgol a bod Cynlluniau Ymyrraeth benodol yn ei lle ar gyfer pob disgybl ac adnabuwyd gan gynnwys cefnogaeth i fod disgybl sy'n derbyn Cinio Rhad ac am Ddim gan Anogwr Dysgu (CA3,4 a 5) ac ar gyfer y disgyblion hynny lle mae ymddygiad neu lefelau presenoldeb isel yn awgrymu y gallant ymddieithrio o fywyd ysgol</p>	<p>Ein bod wedi cefnogi a chofnodi datblygiad a chynnydd pob disgybl difreintiedig fel yr adnabuwyd gan yr ysgol gan gynnwys trwy ddadansoddiad a dehongliad manwl o ddata tracio gan sicrhau bod 100% o ddisgyblion a adnabuwyd yn cael eu cefnogi gan Anogwr Dysgu CA3/CA4/CA5 a/neu aelodau'r timoedd cynnydd a chynnal dysgu.</p> <p>Sicrhau cyfarfodydd rheolaidd a systematig rhwng rhieni'r disgyblion a dargedwyd drwy drefniant Cyfarfodydd Cynnydd</p>

		<p>Byddwn wedi mapio a gwerthuso darpariaeth yr ysgol ac am ddangos tystiolaeth ein bod yn defnyddio dulliau amgen, fel y rheini a nodir yn adroddiad Estyn ar arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion ac adroddiad Achub y Plant Cymru, Communities, Families and Schools Together.</p> <p>Byddwn am rannu gwaith yr ysgol gydag ysgolion eraill gan ein bod yn teimlo bod gennym arfer arweiniol yn y maes hwn.</p> <p>Rydym eisoes yn teimlo bod ein trefniadau ymgysylltu effeithiol â theluoedd yn cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol ac yn enwedig dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig.</p>	<p>(CA3 a 4) a/neu drwy gyfle i drafod gyda'r Anogwr Dysgu/Swyddog Cyswllt Teulu.</p> <p>Bydd yr ysgol am ddangos bod y bwch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion Cinio Rhad ac am Ddim a disgyblion nad ydynt yn rhai Cinio Rhad ac am Ddim yn lleihau dros gyfnod o dair blynedd gan gynnwys gallu dangos bod y bwch mewn cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a phob disgybl wedi lleihau dros y cyfnod o dair blynedd yn ogystal (os yn berthnasol ac o ystyried cyfyngder dilysrwydd y data ystadegol oherwydd y niferoedd isel)</p> <p>Bydd lefelau presenoldeb dysgwyr Cinio Rhad ac am Ddim a gefnogir gan y grant yn gwella.</p> <p>Caiff tystiolaeth ei gasglu hefyd o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • asesiadau athrawon • data o brofion darllen a rhifedd • data ar berfformiad blynyddol ar gyfer cyflawni Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg / Saesneg a Mathemateg (yn cynnwys L2) ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 • data ar bresenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau,
--	--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

<p>2. Gweithredu rhaglen fentora benodol ar gyfer disgyblion a chyfraddau presenoldeb o dan 85%.</p> <p>Cyswllt rheolaidd gyda rhieni'r disgyblion hynny, er mwyn gwella cyfraddau presenoldeb a chyrhaeddiad o weithio gyda'r Swyddog Lles Addysgol. (GAD2)</p>	<p>Arweinydd Cynnydd BI 6 a 7 yn Swyddog Presenoldeb ar draws yr ysgol ac o fewn y Tîm Arwain Strategol. Mae'n derbyn Cymorth Gweinyddol gan y Swyddog Cyswllt Teulu a Dirprwy Arweinydd Cynnydd CA4</p>	<p>Lleihau canran y disgyblion hynny sydd â chyfraddau presenoldeb o dan 85% ac o dan 90%.</p> <p>Sicrhau bod cyfradd presenoldeb yr ysgol am y flwyddyn 2016-17 yn 95.4%</p>	<p>Ein bod wedi taro targedau'r ysgol ar gyfer cyfraddau presenoldeb ac wedi sicrhau cynnydd ym mhresenoldeb disgyblion sy'n derbyn cinio ysgol rad ac am ddim a'r disgyblion hynny sydd mewn peryg ymddieithrio neu sydd â chanrannau presenoldeb isel iawn (o dan 80%).</p>
<p>3. Datblygu strategaethau sy'n cynnwys y teulu a'r gymuned gan gynnwys y rhai sy'n eu cyfeirio at gyfleoedd dysgu.</p>	<p>Gwaith a chyfrifoldebau'r Swyddog Cefnogi Teuluoedd.</p>	<p>Datblygu Rôl y Swyddog Cefnogi Teuluoedd gan sicrhau bod y buddsoddiad a wneir drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith cadarnhaol ar bresenoldeb a chynnydd dysgwyr bregus.</p> <p>Byddwn am weithredu ymyriadau effeithiol sy'n helpu rhieni a'r gymuned i ymgysylltu gyda'r ysgol. Yn benodol, rydym am i rieni mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'r Ysgol ac i fynychu gweithgareddau sydd am gynorthwyo cynnydd eu plant.</p> <p>Sicrhau cynnydd ym mhresenoldeb ac ymglymiad rieni at Nosweithiau Rieni a chyfarfodydd i drafod cynnydd dygwyr.</p>	<p>Bydd mentrau a ariennir gan GAD yn cynnwys ymgysylltu â rhieni a'r gymuned a gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion y clwstwr ac asiantaethau eraill.</p> <p>Fe fydd Adroddiad yn cael ei baratoi gan y Swyddog Cyswllt Teulu yn olrhain effaith cynlluniau ar y disgyblion a'r teuluoedd sy'n derbyn cymorth- yr Adroddiad i ystyried agweddau megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • presenoldeb, • ymddygiad, • agweddau rhieni tuag at gynnydd eu plant, • lles emosiynol a chynnydd ac am gynnwys llais y dysgwyr. <p>Rydym am wella presenoldeb yr holl ddisgyblion sydd wedi'u targedu o 5% (yn seiliedig ar bresenoldeb y flwyddyn flaenorol)</p>

			ac am ddatblygu cynhwysedd rhieni i gefnogi cyrhaeddiad eu plant.
4. Datblygu cymorth a mentora personol i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion, i ddileu rhwystrau i ddysgu a gwella lles a pharodrwydd i ddysgu. (GAD 6)	Cyfraniad y Swyddog Cyfranogiad er mwyn gweithio gyda grwpiau o Ddysgwyr dan anfantais.	Bod y Swyddog Cyfranogiad wedi datblygu rhaglen gydlynol o weithio gyda dysgwyr dan anfantais gan gynnwys gweithgareddau sy'n annog lefelau uwch o gyfranogiad.	Fe fydd Adroddiad yn cael ei baratoi gan y Swyddog Cyfranogiad yn olrhain effaith cynlluniau ar y disgyblion sy'n derbyn cymorth.- yr adroddiad i ystyried agweddau megis, presenoldeb, ymddygiad, lles emosiynol a chynnydd disgyblion ac am gynnwys barn dysgwyr.

Clustnodir y grant yn erbyn cyflogau swyddi allweddol yn yr ysgol a heb y grant mae yn debygolrwydd cryf na fyddai'r ysgol yn medru fforddio cyflogi'r Swyddog Cefnogi Teuluoedd, yr Anogwr Dysgu (CA4) a'r Swyddog Cyfranogiad. Mae defnydd o'r grant yn cwrdd â meini prawf y grant fel y gosodir gan Llywodraeth Cymru. Mae cyfraniad y swyddi hyn yn allweddol i flaenoriaethau cynnal a chodi safonau yr ysgol yn enwedig ein dysgwyr PYDd, presenoldeb disygyblion a gallu'r ysgol i gynnig cwricwlwm amgen.

Swyddog Cefnogi Teuluoedd: £30,548.41

Swyddog Cyfranogiad: £19,112.83

Anogwr Dysgu: £18,189.01

Cyfanswm: £67,850.25